

Cyngor Adnewyddu'r Economi Y Diweddaraf ar Dwf Gwyrdd

Cyflwyniad

1. Yng nghyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2013, cyflwynodd Peter Davies, Comisiynydd Newid yn yr Hinsawdd Cymru, bapur ar Drywydd ar gyfer Economi Werdd. Cafodd y papur gefnogaeth lwyr y Cyngor, ac o ganlyniad sefydlwyd Tasglu Twf Gwyrdd rhwng Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (EST) a Chyfoeth Naturiol a Bwyd (NRF).
2. Nod y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cyngor ar y cynnydd.

Y Diweddaraf ar y Cynnydd

3. Mae'r tasglu wedi cyfarfod ac wedi comisiynu Astudiaeth Gwaelodlin Twf Gwyrdd ac, yn dilyn tendr cystadleuol, penodwyd Eftec fel ymgynghorwyr. Bwriedir cwblhau'r astudiaeth erbyn mis Mehefin 2014 a chynhelir gweithdy ym mis Gorffennaf gyda'r dyddiad i'w gadarnhau, lle bydd aelodau'r Cyngor yn cael eu gwahodd. Bydd y gwaith ymchwil yn cael ei fwydo i mewn i drywydd ar dwf gwyrdd sy'n cynnwys yr amcanion canlynol:

- Gwerthuso ansawdd y cyswllt rhwng diffiniad twf gwyrdd OECD a diffiniad sy'n cyd-fynd ag anghenion Cymru.
- Adolygu dangosyddion a pholisïau penodol a awgrymwyd gan ddull twf gwyrdd OECD ac argymhell ffyrdd y gall Cymru eu mabwysiadu i'w gweithredu ar lefel is-genedlaethol.
- O genhedloedd a rhanbarthau eraill, nodi ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer twf gwyrdd a all gael ei gymhwyso yng Nghymru.
- Nodi cryfderau a chyfleoedd i'w defnyddio fel sail ar gyfer strategaeth twf gwyrdd i Gymru.
- Argymhell camau ar gyfer datblygu dull twf gwyrdd Cymru.

4. Yn ogystal, cafwyd prosiect ymchwil ar wahân, a gomisiynwyd gan Gyfoeth Naturiol a Bwyd, a fydd yn adrodd ar y posibilrwydd i ddatblygu Gwasanaethau Talu am Eco System fel elfen bwysig o botensial twf gwyrdd. Mae Cyfoeth Naturiol a Bwyd hefyd yn paratoi trywydd ar dwf gwyrdd ar gyfer eu holl waith, ac yn cysylltu â swyddogion yn EST.

5. Mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi cyflwyno yn Uwch-gynhadledd Economi Werdd y Byd yn Dubai ym mis Ebrill. Bydd hefyd yn siarad am dwf gwyrdd mewn digwyddiad a drefnwyd drwy Gyfoeth Naturiol Cymru a gynhelir gan yr Arglwydd Faer y Plasty yn Ninas Llundain ar 23 Mehefin.